Cwrs arloesol yn Abertawe yn helpu mam i diwnio i waith newydd

Mae cwrs yn Abertawe sydd â'r nod o helpu menywod i ddilyn gyrfaoedd heb fod yn rhai traddodiadol wedi ei ganmol am amlygu'r hyn mae'r DU yn ei wneud i greu cymdeithas decach ym Mlwyddyn Ewropeaidd Cyfle Cyfartal i Bawb.

Gyda'r trosi i ddigidol ar y gweill ym myd teledu, mae Angela Rees, sy'n fam i ddau o blant, eisoes wedi gofalu ei bod ar y blaen trwy ddysgu'r sgiliau i helpu miloedd o gartrefi yn ne Cymru i symud o analog i ddigidol.

Penderfynodd y fam sengl i fechgyn o efeilliaid drio ei llaw mewn diwydiant lle mae dynion amlycaf fel ffordd o ddychwelyd i waith amser-llawn, gan ymuno â chwrs blasu mewn Gosod Lloerenni ac Erialau Digidol yng Ngholeg Abertawe fel rhan o fenter Ready SET Go Chwarae Teg, a gyllidwyd yn rhannol gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop, Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Oddi yno, cwblhaodd Angela gwrs mwy trylwyr mewn Electroneg ac Erialau Digidol yn y coleg, ac yn ddiweddar, mae wedi cychwyn ar brentisiaeth gydag Elite Aerials o Abertawe.

Esboniodd Angela : "Roedd y sesiynau blasu yn golygu nad oedd rhaid i mi ymrwymo i gwrs llawn-amser ac y gallwn ffitio'r dysgu o gwmpas anghenion ysgol fy mechgyn saith oed.

"Daeth fy ffrind o hyd i'r wybodaeth am y cwrs blasu, a chan wybod fy mod i'n awyddus i fynd yn ôl i waith llawn-amser, dyma oedd y cam cyntaf ar yr ysgol. Fel peiriannydd gosod, bydd Angela yn cynnwys gosod erialau lloeren a digidol yn ogystal â thrwsio a chynnal erialau cebl, sky, free view a theledu. Esboniodd Angela sut y rhoddodd y cwrs iddi nid yn unig y sgiliau electronig sylfaenol, ond ei pharatoi hefyd am fyd gwaith.

Mae'r prosiect wedi ei ran-ariannu gan:

"Gallodd Chwarae Teg roi cyngor ar yrfa i mi, a mwy o hyfforddiant hyd yn oed cyn i mi orffen y cwrs blasu. Rwyf yn awr yn gweithio gydag Elite Aerials fel peiriannydd gosodiadau dan hyfforddiant, yn cysgodi'r uwch-beiriannydd, ond cyn gynted ag y bydda'i wedi gorffen fy hyfforddiant yn y gwaith, byddaf allan yn gweithio ar gontractau preswyl a masnachol ar draws de Cymru gyfan.

"Rwyf yn wastad wedi bod yn eithaf da am osod a thrwsio setiau teledu, lloeren ac erialau, felly roedd hyn yn ymddangos fel gyrfa naturiol. Rwyf wrth fy modd yn gwylio teledu, a does dim yn well na gwylio'ch hoff raglen gyda llun perffaith." meddai Angela.

Yr oedd y cwrs cyflwyniad i Electroneg Sylfaenol – Gosodiadau Digidol yng Ngholeg Abertawe yn un o 30 o gyrsiau byrion a gyflwynwyd gan brosiect Ready SET Go yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau, busnesau a darparwyr hyfforddiant. Mae'r rhaglen dair-blynedd wedi helpu mwy na 300 o fenywod i gael syniad o weithio mewn diwydiannau fu gynt yn agored i ddynion yn unig.

Meddai Bev Pold, rheolwraig datblygu busnes yn Chwarae Teg : "Roedd y prosiect Ready SET Go yn ffordd wych o gael menywod i ystyried gyrfaoedd eraill, a mynd i'r afael â stereoteipio'r rhywiau yn y gwaith.

"Yr oedd yn wir yn cynnig rhywbeth i bawb, o gyflwyniad i sgiliau adeiladu, cynnal ceir ac ymladd tân, i gadwraeth, gwaith saer a ffotograffiaeth ddigidol. Mae Angela yn esiampl wych o'r hyn yr oeddem eisiau ei wneud trwy brosiect Ready SET Go, gan iddi fynd ar y cwrs Electroneg Sylfaenol – Gosodiadau Digidol, yna dilyn mwy o hyfforddiant, ac y mae bellach mewn gwaith."

Mae'r prosiect wedi ei ran-ariannu gan: